# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 10:00 ar 12 MAI 2022, yn y Tŵr, Llandinam.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans (tan Gofnod 59); Dr Louise Marshall; Ms Sabina O'Donoghue, Llywydd UMAber; Ms Rhuanedd Richards; Mr Mark Tweed; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mr Steve Thomas; Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; a Ms Kath Williams, Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol, Chris Davies, Pennaeth Datblygu Ystadau (ar gyfer Eitem 56) a'r Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi (ar gyfer Eitem 65).

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Simon Green, Ms Sharron Lusher, Ms Mared Edwards, Llywydd UMCA, Dr William Williams a Ms Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor. Er mwyn sicrhau bod cworwm yn y cyfarfod ar gyfer yr eitemau hynny yr oedd angen i'r Cyngor eu cymeradwyo, gadawodd y Cynrychiolydd Staff Anacademaidd ar ddiwedd Eitem 58.

## 47. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Yr Athro Ken Walters FRS, cyn Athro Ymchwil Nodedig yn yr Adran Fathemateg a'r Gyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol.

   2. Adrian Mironas, cyn-fyfyriwr yn IBERS, aelod o dîm y Swyddfa Ryngwladol, ac un a oedd yn cyfrannu'n sylweddol at fywyd myfyrwyr a'r dysgu yn Aberystwyth.

   3. Yr Athro Emeritws John Roland Haynes, un o raddedigion Daeareg Aberystwyth a chyn-aelod o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.

2. Dull Cynnal y Cyfarfod

   Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a byddai'r eitemau dan sylw felly'n cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a nodwyd ar y flaenddalen.

3. Estyn Contractau Dirprwy Is-Gangellorion

   CYFLWYNWYD

   Dogfen gyfrinachol gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-102)

NODWYD

1. Byddai pedwar Dirprwy Is-Ganghellor yn cyrraedd diwedd eu cyfnod presennol yn y swydd ar 31 Gorffennaf 2022. Yn unol ag Ordinhad 4, derbyniwyd argymhelliad gan yr Is-Ganghellor i ymestyn cyfnodau’r pedwar aelod o staff a restrwyd yn y swyddi hyd 31 Gorffennaf 2025.

2. Roedd yr Aelodau'n unfryd eu cefnogaeth i'r argymhelliad i ymestyn cyfnodau'r Dirprwy Is-Gangellorion yn eu swyddi.

**PENDERFYNWYD**

3. Bod cyfnodau y *Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr)* yr Athro Tim Woods; *Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd)* yr Athro Neil Glasser; *Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a’r Gwyddorau Ffisegol)* yr Athro Qiang Shen; *Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a’r Gwyddorau Cymdeithasol)* yr Athro Anwen Jones, yn eu swyddi yn cael eu hymestyn hyd 31 Gorffennaf 2025 [**GWEITHREDU:** Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol].

4. <u>Aelodaeth y Cyngor</u>

Diweddariad ar lafar

1. Roedd cyfnod Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, yn ei swydd wedi dod i ben ar 30 Ebrill 2022. Roedd Meri Huws wedi gwasanaethu fel Aelod Annibynnol ers 1 Mai 2019 ac, yn unol â'r Ordinhad blaenorol, fe'i penodwyd am gyfnod o 3 blynedd. Yn unol ag Ordinhad 9, roedd aelodau bellach yn gymwys i gael eu hailbenodi am gyfnod o 4 blynedd ac argymhellodd y Cadeirydd bod cyfnod Meri Huws yn y swydd yn cael ei ymestyn hyd 30 Ebrill 2026.

2. Roedd yr Aelodau'n unfryd eu cymeradwyaeth i argymhelliad y Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD**

3. Bod cyfnod Meri Huws yn Aelod Annibynnol ac yn Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor yn cael ei ymestyn hyd 30 Ebrill 2026 [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

5. <u>Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad</u>

1. Yn dilyn ymddiswyddiad Fiona Sharpe o'r Cyngor ac fel Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, roedd y Cadeirydd wedi gwahodd Kate Eden i gadeirio’r Pwyllgor, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

2. Roedd yr Aelodau'n unfryd eu cymeradwyaeth i argymhelliad y Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD**

3. Y byddai Kate Eden yn cymryd yr awenau'n ffurfiol fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Adnoddau a Pherfformiad o 1 Mai 2022 [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

Roedd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd wedi derbyn gohebiaeth gan Mr Owen Evans yn datgan, yn sgil ei benodi yn Brif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi yng Nghymru, a'r gwrthdaro buddiannau posibl â'i rôl fel aelod o'r Cyngor, ei fod, yn anfoddog, wedi

cyflwyno ei ymddiswyddiad fel aelod o'r Cyngor a'i is-bwyllgorau. Diolchwyd i Owen am ei gyfraniad i waith y Brifysgol.

**48. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**49. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 04 Chwefror 2022 (COU2122-078).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, gan olygu eitemau 37.8 a 37.10 cyn cyhoeddi'r cofnodion [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**50. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2122-079).

NODWYD

1. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

2. Nododd yr Aelodau, o dan 37.3, bryderon pellach ynghylch denu myfyrwyr i astudio cyrsiau TAR yng Nghymru, gan dynnu sylw'n benodol at yr heriau sy'n gysylltiedig â denu myfyrwyr i astudio pynciau gwyddonol a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**51. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-080).

NODWYD

1. Nodyn o'r penderfyniadau a wnaed rhwng cyfarfodydd drwy ohebiaeth neu Gamau Gweithredu'r Cadeirydd.

**52. GOHEBIAETH**

1. Adolygiad Risg Sefydliadol

DERBYNIWYD

Llythyr oddi wrth Dr David Blaney, CCAUC (COU2122-081)

NODWYD

2. Roedd y llythyr yn rhoi gwybod i Brifysgol Aberystwyth am ganlyniad Adolygiad Risg Sefydliadol diweddaraf CCAUC. Aseswyd bod risg y Brifysgol yn 'Gymedrol', ac yn gwella, wedi i'r risg, cyn hyn, gael ei hasesu fel un 'uchel'.

3. Cafodd yr asesiad hwn ei groesawu gan yr aelodau, a llongyfarchwyd yr Is-Ganghellor a'i chydweithwyr am y cynnydd a wnaed.

4. Tynnodd yr aelodau sylw at y cyfeiriad at yr arweinyddiaeth strategol a'r adnoddau ar gyfer ehangu mynediad gan nodi y byddai'r mater hwn yn cael ei bwysleisio ymhellach yn amcanion strategol y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Cytunwyd y dylid cynnwys sesiwn ar agenda cyfarfod strategaeth y Cyngor ym mis Medi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y strategaeth ar gyfer ehangu cyfranogiad yn y Brifysgol.

**PENDERFYNWYD**

5. Cynnwys eitem ar ehangu mynediad yng nghyfarfod strategaeth y Cyngor ym mis Medi 2022 [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**53. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2122-082)

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad amlygu; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Roedd yr Arolwg Gwella Ansawdd (QER) wedi'i gynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 26 Ebrill 2022. Er nad oedd yr adroddiad terfynol ar gael, roedd yr arwyddion cychwynnol yn awgrymu bod y canlyniad yn un cadarnhaol dros ben gyda chanmoliaeth mewn sawl maes pwysig. Cytunwyd y byddai'r adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2022.

3. Cyhoeddwyd canlyniadau FfRhY 2021 ddydd Iau 12 Mai 2022. Dywedwyd wrth yr aelodau bod ansawdd yr allbynnau ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi gwella ond bod sefyllfa gymharol y Brifysgol o'i chymharu â'r sector yn gyffredinol wedi gostwng oherwydd bod mwy o welliant wedi bod mewn prifysgolion eraill. Cyflwynodd Prifysgol Aberystwyth nifer debyg o staff o'i gymharu â 2014 ond roedd eraill yng Nghymru wedi cyflwyno llawer mwy. O ganlyniad, roedd cyfran y staff yng Nghymru a gyflwynwyd gan Brifysgol Aberystwyth wedi gostwng o 16% yn 2014 i 10% yn 2021. Nodwyd hefyd bod y canlyniadau'n fesur o weithgarwch rhwng 2013 a 2019 pan oedd y brifysgol wedi gwneud penderfyniadau strategol ymaith o faes ymchwil. Er y byddai effaith ariannol a gostyngiad disgwyliedig yn yr incwm ymchwil ar sail ansawdd, disgwylid y byddai CCAUC yn lliniaru rhai o'r colledion hynny yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Roedd uchelgais y Brifysgol i gynyddu ei gweithgarwch ymchwil ac ansawdd ei hallbynnau ymchwil yn glir ac roedd cyflawni'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt ar gyfer ymchwil yn rhan allweddol o hynny.

**PENDERFYNWYD**

4. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ganlyniad terfynol yr Arolwg Gwella Ansawdd yng nghyfarfod Gorffennaf 2022 [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor, Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr].

## 54. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2122-083).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad cryno, dros dro am weithgaredd iechyd a diogelwch.

2. Derbyniwyd yr adroddiad yn y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ym mis Mawrth 2022. Roedd y Cynllun Gweithredu wedi'i ail-lunio er mwyn cynnwys cyfres newydd o ddyddiadau targed yn blaenoriaethu'r materion i fynd i'r afael â hwy o fewn cyfnodau o 6, 12 a 18 mis. Roedd hyn, ynghyd â'r cynnydd a wnaed o ran recriwtio i swyddi gwag yn y maes, yn cynyddu'r hyder o ran y gallu i gyflawni'r cynllun gweithredu.

3. Roedd y Brifysgol yn cynnal adolygiad llawn o'i Systemau Rheoli Parhad Busnes a oedd wedi cynnwys hyfforddiant i aelodau'r Grŵp Gweithredol ynghylch cyflwyno ymateb strategol i adfer ar ôl trychineb.

## 55. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU2122-084).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

2. Cynhaliwyd etholiadau Undeb y Myfyrwyr ym mis Mawrth 2022.

3. Byddai myfyrwyr, gan gynnwys Llywydd UMCA, yn cymryd rhan yn y paratoadau ar gyfer cyhoeddi neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn Oslo yn ystod wythnos 16 Mai 2022.

4. Cynhaliwyd Gwobrau Staff a Myfyrwyr 2022 ar 3 Mai 2022 ac roedd y digwyddiad wedi bod yn llwyddiant. Diolchwyd i'r Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr am ei gefnogaeth.

5. Diolchodd y Pennaeth Cyfathrebu hefyd i Undeb y Myfyrwyr am eu cydweithrediad a'u hymwneud â gwaith y tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

6. Llongyfarchwyd UMCA am eu llwyddiant yn Eisteddfod Ryng-golegol 2022, a hwythau wedi dod yn ail i Gaerdydd.

## 56. CYNLLUN GWEITHREDU YSTADAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Chris Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd; ac Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2122-085).

NODWYD

1. Roedd y Cynllun Gweithredu Ystadau wedi'i dderbyn a'i gymeradwyo mewn egwyddor gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ym mis Mawrth 2022. Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr ystod lawn o uchelgeisiau a chostau ond hefyd yn rhoi arwydd cynnar o'r blaenoriaethau ym mlynyddoedd 1-3 a'r tu hwnt i hynny; creu'r capasiti i ryddhau lle ar gyfer ymdrechion academaidd; mynd i'r afael â'r gwendidau a geir ar hyn o bryd a chreu bloc gweinyddol wrth y fynedfa i'r campws. Roedd hwn yn ddatblygiad a gafodd ei argymell fel un i'w gyflawni'n gynnar yn y rhaglen er mwyn galluogi cyfuno nifer o adrannau gwasanaethau proffesiynol sydd wedi'u lleoli mewn rhannau eraill o'r campws, y gellid wedyn eu rhyddhau i alluogi'r twf strategol ac i ddatblygu'r ddarpariaeth.

2. Roedd canfod cyllid yn parhau i fod yn heriol, yn enwedig gan fod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud, ac yn parhau i gael ei wneud, mewn gwaith cynnal a chadw a gwaith adferol cudd ond hanfodol.

3. Nododd yr aelodau y pwyntiau canlynol i'w hystyried wrth ddatblygu'r manylion ar gyfer y rhaglen: ystyried dymchwel yn ogystal â datblygu ar gyfer rhannau o'r ystâd; synergedd posibl â sefydliadau'r sector preifat wrth ddatblygu seilwaith newydd; ystyried proffil ac enw da'r brifysgol yn y gymuned; a pherthnasedd a phwysigrwydd mannau penodol sy'n bodoli eisoes i randdeiliaid allanol .

4. Nid oedd y manylion yn ymwneud â'r adolygiad o'r gofynion ar gyfer gofod ymchwil arbenigol wedi cael eu darparu eto, ac roedd galw amdanynt.

5.. Derbyniwyd y cynllun yn gyffredinol gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn amodol ar ystyried yr anghenion sy'n deillio o'r strategaeth ymchwil; cwestiynau am gynaliadwyedd a lles a gwarchod treftadaeth. Dylai'r prosiectau sy'n deillio o'r cynllun hefyd gynnwys ystyriaeth o ffyrdd newydd o weithio yn dilyn y pandemig a'r angen i ymgorffori amgylchedd gweithio sy'n fwy hyblyg.

**PENDERFYNWYD**

6. Croesawu'r cyfeiriad a amlinellwyd ac, yn unol â thrafodaeth y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, derbyn yr adroddiad fel cam cyntaf tuag at gyflwyno uwchgynllun gydag amlinelliad o'r prosiectau unigol a manylion yn cael eu cyflwyno er mwyn craffu arnynt ar yr adeg briodol.

7. Rhoi adroddiad o sylwedd ar gloriannu'r mannau ymchwil presennol ac amlinellu argymhellion ar gyfer datblygu cyfleusterau ymchwil arbenigol, gan gydnabod na ellir seilio'r rhain ar drefn yr adrannau fel y maent ar hyn o bryd. [**GWEITHREDU:**Y Pennaeth Datblygu Ystadau].

8. Dechrau'r broses o ganfod ffrydiau cyllido ar gyfer prosiectau unigol y rhaglen [**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol].

**57. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Steve Walsh, y Pennaeth Cynllunio (COU2122-086)

NODWYD

1. Derbyniodd y Cyngor y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Chwarter 2, gyda diweddariadau ers Chwarter 1 i'r incwm a'r cyllid ymchwil.

2. Hon oedd yr ail flwyddyn ers cyflwyno'r arolwg newydd ar Ganlyniadau Graddedigion ac roedd y gyfradd ymateb wedi bod yn isel iawn. Nodwyd y byddai'r aelodau'n croesawu ystyriaeth fanylach o hyn a'r strategaeth cyflogadwyedd yn fwy cyffredinol yn niwrnod encil y Cyngor ym mis Medi.

**PENDERFYNWYD**

**3.** Cynnwys sesiwn ar gyflogadwyedd ar yr agenda ar gyfer diwrnod cyfarfod encil y Cyngor ym mis Medi [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**58. MATERION ARIANNOL**

1. <u>Cyfrifon Rheoli</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Mark Godsell (COU2122-087).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn disgrifio perfformiad ariannol y Brifysgol hyd at ddiwedd Mis 5 (31 Ionawr 2022).

1. Roedd y Brifysgol yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni ei chyllideb warged o £0.1m y cyllidebwyd ar ei chyfer, a hynny gyda chymorth grantiau yn ystod y flwyddyn o £2.3m gan CCAUC, i'w buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw ac offer ar gyfer carbon sero net a'r economi ddigidol; a £1.03m yn rhagor mewn incwm ymchwil ychwanegol ar sail ansawdd.

2. Derbyniwyd y Cyfrifon Rheoli yng nghyfarfod mis Mawrth y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, pan nodwyd y sefyllfa, yn enwedig o ran y strategaeth o brynu ymlaen llaw a ddefnyddiwyd i ymdopi â'r cynnydd yng nghostau ynni.

3. Fel y nodwyd o dan y Penderfyniadau a wnaed rhwng Cyfarfodydd, rhoddwyd cymeradwyaeth drwy Gamau Gweithredu'r Cadeirydd ar gyfer yr estyniad 12 mis i'r Adnodd Credyd Cylchol. Roedd y cyfnod presennol i fod i ddod i ben ym mis Mai 2023 ac roedd angen rhybudd o 12 mis cyn ymestyn y dyddiad terfyn hwnnw. Yn sgil y gymeradwyaeth, byddai'r adnodd bellach yn dod i ben ym mis Mai 2024.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd.

2. <u>Rhagdybiaethau Allweddol yn y Gyllideb</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Mark Godsell (COU2122-088).

NODWYD

1. Paratowyd cyllideb y Brifysgol yn rhan o Ragolwg Ariannol 5 Mlynedd, gan osod y ffiniau ariannol ar gyfer y flwyddyn. Roedd yr adroddiad yn crynhoi rhagdybiaethau cynllunio'r Brifysgol yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf a oedd ar gael.

2. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y cynnig cyflogau terfynol y cytunwyd arno ar gyfer 2022/2023 yn un ffafriol o'i gymharu â'r gyllideb a ragdybiwyd. Roedd cyfradd unffurf ar gyfer incwm ymchwil ar sail ansawdd wedi'i rhagdybio hefyd, a byddai hynny'n parhau i fod yn wir am y flwyddyn sydd i ddod, ond roedd yn debygol iawn o ostwng yn y blynyddoedd y tu hwnt i hynny.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd.

3. <u>Cynllun Ffioedd a Mynediad</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr) a Dr Sarah Taylor, Pennaeth Datblygu Strategol (COU2122-089).

NODWYD

1. Bod yr adroddiad wedi'i ddrafftio mewn ymgynghoriad ag Undeb y Myfyrwyr ac wedi'i gymeradwyo drwy Gamau Gweithredu'r Cadeirydd er mwyn cwrdd â dyddiad cau CCAUC. Roedd hyn yn ymateb i gais CCAUC am gynllun dwy flynedd, yn cwmpasu 2023/24 i 2024/25. Nid oedd CCAUC wedi gofyn am fanylion gweithgareddau, gwariant na thargedau. Fodd bynnag, byddai'r gwaith ar y rhain yn parhau er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith yn iawn, a bod y Brifysgol yn gallu rhoi'r sicrwydd priodol i'r Cyngor a CCAUC yn ôl y gofyn.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodi cynnwys y cynllun fel y'i cymeradwywyd.

**59. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2122-090).

NODWYD

1. Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2022 ac wedyn yn y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Mawrth 2022, roedd yr aelodau wedi gofyn am gadarnhad o sut y byddai'r corff llywodraethu yn cael gwybod am hynt Prosiect yr Hen Goleg. Cyflwynwyd

argymhelliad i'r Cyngor i sefydlu Grŵp Goruchwylio Prosiect yr Hen Goleg er mwyn monitro rhagor ar hynt y prosiect. Byddai’r grŵp yn cwrdd bob chwarter ac yn adrodd i'r Cyngor drwy'r Grŵp Gweithredol a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

2. Gofynnwyd i'r Cyngor hefyd gymeradwyo enwebiad aelod o'r corff llywodraethu i fod yn rhan o’r Grŵp Goruchwylio ac enwebwyd Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r argymhelliad i sefydlu Grŵp Goruchwylio’r Prosiect ac, at hynny, cymeradwyo enwebu Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, i fod yn rhan o’r Grŵp Goruchwylio.

## 60. CYMERADWYO ENWI LABORDY BEATRICE EDGELL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-091)

NODWYD

1. Gwnaed cais i'r Grŵp Gweithredol o dan y Polisi ar Enwi Adeiladau ac Ardaloedd Penodol yn y Brifysgol. Roedd y cais yn gofyn am gael enwi labordy yn yr Adran Seicoleg er mwyn anrhydeddu’r Athro Beatrice Edgell, cyn-fyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth ac unigolyn arwyddocaol yn natblygiad Seicoleg fel disgyblaeth academaidd. Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r argymhelliad a wnaed gan y Grŵp Gweithredol. Derbyniwyd yr argymhelliad yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'n ffurfiol yr argymhelliad i enwi'r ardal yn yr Adran Seicoleg yn Labordy Beatrice Edgell.

## 61. DIWEDDARIADAU I’R POLISI ENWI ADEILADAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol a Phennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor (COU2122-092)

NODWYD

1. Ar ôl rhoi’r Polisi ar Enwi Adeiladau ac Ardaloedd Penodol yn y Brifysgol ar waith, roedd rhai newidiadau i'r polisi yn cael eu hargymell. Gwahoddwyd yr aelodau i nodi, yn benodol, y camau ychwanegol ar gyfer asesu’r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynigion enwi ac, yn ail, ystyriaethau fersiynau Cymraeg neu fersiynau cyfatebol o enwau arfaethedig.

**PENDERFYNWYD**

2. Diwygio a chyhoeddi’r polisi Enwi Adeiladau ac Ardaloedd Penodol yn y Brifysgol fel yr argymhellwyd [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**62. GWAREDU ASEDAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2122-093)

NODWYD

1. Yn 2017, cymeradwyodd y Cyngor yr adroddiad Gwaredu Asedau, a nododd bedwar eiddo ar bymtheg nad oedd eu hangen. Roedd hyn yn cynnwys eiddo academaidd, preswyl a domestig ynghyd â thir ledled yr Ystâd. Ar 26 Tachwedd 2021, ystyriodd y Cyngor bapur ar ystyriaethau fforddiadwyedd ar gyfer prosiect yr Hen Goleg wrth benderfynu ar benodi prif gontractwr ar gyfer prosiect yr Hen Goleg. Roedd y papur hwnnw'n argymell gwaredu asedau o hyd at £2.0m ynghyd â gwaredu buddsoddiadau a ddelir gan y Brifysgol ac yn amodol ar ragor o ymdrechion codi arian.

2. Derbyniwyd y papur a gynigiwyd yn y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ym mis Mawrth 2022, a bryd hynny cafodd ei gymeradwyo yn amodol ar dynnu Bwthyn Gogerddan oddi ar y rhestr o eiddo arfaethedig i'w gwaredu. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd fod y cynigion manwl ar gyfer gwaredu Llanbadarn yn dal i fod yn yr arfaeth.

3. Dywedwyd wrth yr aelodau fod ystyriaethau ynghylch safleoedd i'w gwaredu yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy o ran effeithiau posibl ar enw da.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r strategaeth a gynigiwyd ar gyfer gwaredu'r asedau fel y'u rhestrwyd, yn amodol ar dynnu Plas Gogerddan. Nodwyd ymhellach y byddai Banc y brifysgol yn cael gwybod am unrhyw warediadau sylweddol a fyddai'n cael eu cymeradwyo, yn unol â'r cytundeb Adnodd Credyd Cylchol a oedd ar waith [**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol].

**63. CYNNIG OPSIWN PRYDLES FFERM WYNT**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Tim Macy, Rheolwr Cynllunio Gofod (COU2122-094)

NODWYD

1. Derbyniwyd cynnig i'w gymeradwyo i ymrwymo i gytundeb prydles gyda Waun Hesgog Energy Park Cyfyngedig ar gyfer darn o dir fferm sy'n eiddo i'r brifysgol (Rhydyronen) i'w ddatblygu fel fferm wynt. Roedd y Brifysgol yn un o 20 perchennog eiddo yn yr ardal a oedd wedi ymrwymo i gytundebau tebyg. Roedd y cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ei gymeradwyo gan ei fod, yn ffurfiol, gyfystyr â gwaredu asedau. Nodwyd bod y tir hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer plannu coed ac na fyddai effaith ar y datblygiad hwn, â'r ardaloedd perthnasol lle mae coed yn cael eu plannu a lle bwriedir datblygu'r fferm wynt yn cael eu nodi yn y Cytundeb Opsiwn (COU2122-094e).

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r argymhelliad i ymrwymo i gytundeb prydles ar gyfer y darn o dir ar Fferm Rhydyronen fel yr amlinellwyd. [**GWEITHREDU:**Rheolwr Gofod ac Asedau'r Brifysgol].

**64. STRATEGAETH GYFATHREBU**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus (COU2122-095)

NODWYD

1. Cyflwynwyd Strategaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus i'w nodi a'i chymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor. Roedd y cyflwyniad i gyd-fynd â hyn yn amlinellu'r trefniadau strwythurol a oedd yn diogelu natur unigryw y Cyfadrannau ac ar yr un pryd yn sicrhau rhywfaint o drosolwg ar lefel y Brifysgol yn ganolog o'r negeseuon a'r cyfathrebu yn fwy cyffredinol. Cytunwyd y dylid ychwanegu *effaith* ymchwil at yr amcanion strategol craidd. Cynghorwyd yr aelodau ymhellach, o ran y cydberthynasau strategol, bod aelod o'r tîm cyfathrebu yn bresennol ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau Ymchwil y Cyfadrannau a bod hyn yn hwyluso cysondeb o ran y negeseuon yn ogystal â sicrhau trosolwg ar lefel briodol ar gyfer materion ymchwil.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r Strategaeth yn amodol ar ychwanegu effaith ymchwil o dan yr amcanion strategol craidd [**GWEITHREDU:** Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus].

**65. STRATEGAETH YMCHWIL AC ARLOESI: ADOLYGIAD CANOL TYMOR O GYNNYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (COU2122-096)

NODWYD

1. Cymeradwywyd Strategaeth Ymchwil ac Arloesi gan y Cyngor yn 2019 a oedd yn cynnwys pum egwyddor allweddol yn sail i ddull y brifysgol o ymwneud ag ymchwil ac arloesi, a 35 o weithredoedd i ddatblygu'r amgylchedd ymchwil. Roedd y cyd-destun dros y ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn heriol, ac yn benodol felly roedd Covid-19 wedi tarfu'n sylweddol ar weithgarwch ymchwil. Tynnwyd sylw'r aelodau at lofnodi'r ddau Goncordat: y Concordat i Gefnogi Datblygu Ymchwilwyr a'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth. Roedd yr ail ohonynt, yn enwedig, yn sail i ddatblygiad diweddar arall, sef cronfa newydd gan CCAUC (Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru) â'r bwriad o fynd i'r afael â rhywfaint o'r tanariannu ar sefydliadau addysg uwch yng Nghymru drwy ddarparu adnoddau ychwanegol i gefnogi gweithgareddau arloesi a chapasiti cefnogi ymchwil o fewn y Brifysgol.

2. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am bedwar amcan strategol ychwanegol i'w hymgorffori yn y strategaeth, yn cwmpasu: y cyfleoedd i hyrwyddo'r ymchwil sy'n deillio o'r dathliadau pen-blwydd 150; goblygiadau'r 'newid digidol' ar gyfer Ymchwil ac Arloesi a'r seilwaith i gefnogi hyn; ymgysylltu â staff Emeritws; ymgysylltu â gwasanaethau proffesiynol ledled y Brifysgol i wella'r ddealltwriaeth o'r byd ymchwil ar ôl Covid.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi wedi'i diweddaru fel yr amlinellwyd a derbyn y pedwar amcan strategol ychwanegol.

**66. ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU I'W CYMERADWYO**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol yn amlinellu pedair eitem gan yr Is-bwyllgorau a gyflwynwyd ar gyfer eu cymeradwyo'n ffurfiol (COU2122-097)

NODWYD

1. Y Cynllun Gweithredu Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wedi'i ddiweddaru (GCC2122-029)

2. Cod Ymarfer Undeb y Myfyrwyr (GCC2122-035).

3. Y cais i fabwysiadu diffiniad gweithredol Cynghrair Ryngwladol Cofio'r Holocost o wrthsemitiaeth, nad yw'n gyfreithiol-rwym, ac argymhelliad y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar fabwysiadu'r diffiniad o Islamoffobia (SEN2122-025).

4. Yr argymhelliad i ad-drefnu IBERS fel y mae ar hyn o bryd yn ddwy uned academaidd ar wahân, sef sefydliad ymchwil (IBERS) ac adran academaidd (Yr Adran Gwyddorau Bywyd) (SEN2122-025).

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wedi'i ddiweddaru a Chod Ymarfer Undeb y Myfyrwyr yn unol ag argymhelliad cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ar 10 Mawrth 2022.

6. Mabwysiadu diffiniad gweithredol Cynghrair Ryngwladol Cofio'r Holocost o wrthsemitiaeth, nad yw'n gyfreithiol-rwym, ac argymhelliad y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar fabwysiadu'r diffiniad o Islamoffobia yn unol ag argymhelliad y Senedd yn ei gyfarfod ar 17 Tachwedd 2021.

7. Cymeradwyo ad-drefnu IBERS fel y mae ar hyn o bryd yn ddwy uned academaidd ar wahân yn unol ag argymhelliad y Senedd yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2022.

**67. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2122-098); ac

2. Adroddiad ar ddyddiadau cyfarfodydd 2022-23 (COU2122-099);

NODWYD

3. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**68. DATBLYGIADAU O RAN CYMORTH I FYFYRWYR A CHYFLOGADWYEDD**

DERBYNIWYD

Cyflwyniad gan Ian Munton, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a'r Gwasanaethau Gyrfaoedd (COU2122-100).

NODWYD

***GOHIRIWYD YR EITEM HON HYD GYFARFOD YN Y DYFODOL***

**69. ADRODDIADAU GAN IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion y canlynol (COU2122-075):

1. Llywodraethu a Chydymffurfio (10 Mawrth 2022);
2. Buddsoddiadau (10 Mawrth 2022);
3. Archwilio, Risg a Sicrwydd (11 Mawrth 2022);
4. Senedd (23 Mawrth 2022) a (17 Tachwedd 2021); a
5. Adnoddau a Pherfformiad (25 Mawrth 2022);

NODWYD

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr is-bwyllgorau.

**70. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

NODWYD

1. Hwn oedd cyfarfod Cyngor olaf Sabina O'Donoghue a Mared Edwards, a diolchwyd i'r ddwy ohonynt am eu cyfraniad i waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Byddai Swyddogion newydd Undeb y Myfyrwyr yn ymuno â'r Cyngor ar gyfer y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2022.
2. Hwn hefyd oedd cyfarfod olaf wyneb yn wyneb yr Athro Syr Robin Williams, er y byddai un cyfarfod ar-lein arall o'r Cyngor ym mis Gorffennaf. Diolchwyd i Syr Robin am ei gyfraniad amhrisiadwy i waith y Brifysgol yn ystod ei gyfnod ar y Cyngor.